

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

CWRICWLWM I GYMRU 2022 – YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION DEDDFWRIAETHOL I GEFNOGI CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

EBRILL 2020 F.1

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 7. Casgliad.....	9
A. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	11

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

1.1 Cefndir

Mae addysg grefyddol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm presennol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgol heblaw dosbarthiadau meithrin. Bydd yn parhau i fod yn bwnc gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru, ond bellach i bob dysgwr 3-16 oed, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Yn y byd cynyddol gymhleth hwn sy'n newid yn gyflym, mae angen i blant a phobl ifanc Cymru gael addysg gan y wladwriaeth sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgu mewn ffordd feirniadol, amlblyfol a datblygiadol briodol heb geisio gwthio syniadau mewn perthynas â'r materion a drafodir yn yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg. Mae hyn yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar.

Ar sail y gyfraith achosion bresennol, rydym yn disgwyl y bydd yn rhaid i'r broses o addysgu maes llafur cytunedig addysg grefyddol fod yn un blwraliaethol. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid iddi fod yn gytbwys o ran cynnwys a dull addysgu. Dylai adlewyrchu'r amrywiaeth o grefyddau, bydolygon neu argyhoeddiadau anghrefyddol athronyddol gwahanol a ddelir gan bobl yng Nghymru a Phrydain Fawr. Mae sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi hyn yn briodol yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r trefniadau ar gyfer y Cwricwlwm newydd.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig os bydd unrhyw grŵp cynrychioliadol ar ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn gofyn iddo wneud hynny. Yna, bydd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn pennu cynnwys y maes neu feysydd llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol i'w haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol hwnnw.

Mae'n ofynnol i ysgolion heb nodweddion crefyddol addysgu addysg grefyddol yn unol â maes llafur cytunedig a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgolion hynny neu eu disgyblion.

I ysgolion sydd â nodweddion crefyddol, mae trefniadau ychydig yn wahanol ar gyfer cymhwyso maes llafur cytunedig, neu faes llafur enwadol, ac mae'r trefniadau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y wladwriaeth wedi croesawu sawl ffydd wahanol i'r ddarpariaeth addysg yn hanesyddol. Wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio parchu hyn, a chydbwyso hawl bresennol rhieni yn y system ysgolion yng Nghymru ac, yn wir, yn y DU, i ddewis addysg grefyddol i'w plentyn gan gydnabod na fydd yn briodol i bob disgybl mewn ysgolion o'r fath.

Mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â nodweddion crefyddol, eu harfer gyffredin o dan Atodlen 19 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yw eu bod yn addysgu elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol. Gall gweithred ymddiriedolaeth yr ysgolion hyn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu addysg mewn modd penodol nad yw'n blwraliaethol. Mewn perthynas ag ysgolion sefydledig ac ysgolion ffydd

a reolir yn wirfoddol, mae Atodlen 19 i Ddeddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt addysgu'r maes llafur cytunedig oni fydd rhiant yn gofyn am i'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol gael ei darparu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld y gweithredoedd ymddiriedolaeth hyn felly ni allwn fod yn siŵr ynghylch hyn. O ystyried hyn, mae'r Bil yn nodi os na fydd rhiant am i'r elfen addysg grefyddol enwadol gael ei darparu, gall ofyn i'r ysgol ddarparu'r maes llafur addysg grefyddol cytunedig. Byddai'r darpariaethau hyn yn gymwys i bob ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â nodweddion crefyddol ni waeth beth yw ffydd yr ysgol honno. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau y gellir sefydlu ysgolion newydd â mathau eraill o ffydd. Cyfrifoldeb y ffydd benodol fyddai cyflwyno cynnig o'r fath.

Newidiadau arfaethedig

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i ddeddfwriaeth mewn perthynas ag addysg grefyddol (Crefydd, gwerthoedd a moeseg):

Cwmpas Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg adlewyrchu credoau crefyddol yn ogystal â chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol yn unol â'r ystyr a bennir yn Erthygl 2, Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (A2P1). Mae'r rhain yn cynnwys credoau fel dyneiddiaeth ac anffyddiaeth. Nid yw'r newidiadau hyn yn adlewyrchu newid perthnasol yn y gyfraith o reidrwydd. Rydym yn ystyried bod y newidiadau hyn yn ei gwneud yn glir yr hyn sydd eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Canllawiau ar gyfer Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig

Darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, CYSAG a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytunedig. Mater i'r Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig fydd penderfynu beth i'w gynnwys yn y maes llafur cytunedig. Byddwn yn rhoi canllawiau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i'w helpu i wneud hyn.

Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol, a disgwyliadau gwahanol fathau o ysgolion

Bwriedir i'r Cwricwlwm newydd fod yn llai rhagnodol ac, yn bwysicach, ei fod yn creu dyletswyddau newydd i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm eu hunain ac yna roi'r cwricwlwm y maent wedi'i ddylunio ar waith a'i fabwysiadu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried statws priodol meysydd llafur cytunedig. Credwn y byddai'n fwy priodol ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o ysgolion ystyried maes llafur cytunedig yn hytrach nag addysgu yn unol ag ef. Mae'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion fel a ganlyn:

- i. Bydd yn ofynnol i **ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb nodweddion crefyddol** ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio a gweithredu Crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Ni fydd yn ofynnol i'r ysgolion hyn addysgu yn unol â maes llafur cytunedig mwyach. Rydym hefyd yn bwriadu dileu'r hawl i ofyn am elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg amgen yn yr ysgolion hyn.

- ii. Bydd yn ofynnol i **ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â nodweddion crefyddol** ddylunio eu cwricwlwm fel ei fod yn cynnig dwy ddarpariaeth amgen:
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i dylunio'n unol â maes llafur cytunedig
 - Crefydd, gwerthoedd a moeseg wedi'i dylunio'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol.

Wrth roi eu cwricwlwm ar waith, bydd yr ysgolion hyn yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig i ddisgyblion fel mater o drefn, ond, fel sy'n wir ar hyn o bryd, bydd yn rhaid iddynt addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny.

- iii. Bydd yn ofynnol i **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol** ddylunio eu cwricwlwm fel ei fod yn cynnig dwy ddarpariaeth amgen:

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg wedi'i dylunio'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg wedi'i dylunio *yn unol* â maes llafur cytunedig

Wrth roi eu cwricwlwm ar waith, yr arfer gyffredin yn yr ysgolion hyn fydd addysgu Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt addysgu Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â maes llafur cytunedig os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny. Ni fydd gan yr ysgolion unrhyw ddisgresiwn o ran derbyn y cais hwn.

Yn yr holl ysgolion uchod, ni fydd hawl i dynnu yn ôl o'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg ei hun.

Mewn perthynas â disgyblion 6^{ed} dosbarth, ni fydd y Bil yn gwneud Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn orfodol. Fodd bynnag, gall disgyblion ofyn am yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg ac os bydd hynny'n digwydd, rhaid i'r corff llywodraethu ei darparu. Os felly, mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg a ddarperir adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau crefyddol Cristnogol a geir yn bennaf ym Mhrydain Fawr, gan ystyried arferion addysgu prif grefyddau eraill a rhaid iddi hefyd adlewyrchu'r ffaith bod amrywiaeth o argyhoeddiadau anghrefyddol athronyddol yn cael eu harfer ym Mhrydain Fawr. Mae'r cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol yn cyfeirio at argyhoeddiadau athronyddol yn unol â'r ystyr yn A2P1. Mae wedi'i gynllunio er mwyn helpu i sicrhau y bydd yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn blwraliaethol. Fodd bynnag, nid yw'n golygu gwahardd yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg oni fydd y disgybl yn gofyn am hynny. Gall ysgol wneud Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn orfodol i'w disgyblion 6^{ed} dosbarth o hyd fel rhan o reolau'r ysgol. Yn ogystal, gallai ysgol ffydd addysgu ei helpen Crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol o hyd os bydd yn dymuno. Mater i'r ysgol fyddai hynny.

1.2 Hirdymor

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas i fyd sy'n newid yn gyflym.

Mae'r hyn a ddysgir yn yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn bwysig o ran cefnogi dysgwyr er mwyn iddynt allu ymdopi mewn cymdeithas gynyddol gymhleth.

Bydd y cynnig ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol yn sicrhau y bydd dysgwyr yn cael budd o gwricwlwm eang a chytbwys a phlwrailiaethol, gyda mynediad i bob rhan o'r cwricwlwm ac rydym yn cynnig y dylai'r newidiadau deddfwriaethol sicrhau hyn. Ynghyd â rhywfaint o her a phwysau byrdymor er mwyn cefnogi'r nod hirdymor o sicrhau cymdeithas fwy cynhwysol.

1.3 Atal

Mae darparu'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg o oedran cynnar yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel, parchu ei gilydd a meithrin cydberthnasau iach. Bydd hyn o fudd i'w lles meddyliol, corfforol ac emosiynol ac felly'n arwain at oblygiadau pwysig o ran byw bywyd llwyddiannus fel oedolyn.

Mae elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol a dileu yr hawl i dynnu yn ôl o addysg grefyddol yn y cwricwlwm newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith atal drwy sicrhau bod dysgwyr yn dysgu am eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Bydd gallu cael gafael ar wybodaeth o ansawdd da a strategaethau i ddeall pwysau y gallant eu hwynebu yn eu paratoi'n well i wynebu'r pwysau hynny: o adnabod cydberthnasau iach a rhai nad ydynt yn iach i ddeall safbwyntiau pobl sydd â chredoau a gwerthoedd gwahanol iddyn nhw. Bydd hyn yn helpu i atal y goblygiadau negyddol a fyddai'n codi o ganlyniad i gydberthnasau ac ymddygiadau negyddol

Ceir amheuaeth ynghylch p'un a fyddai dysgwyr yn gallu cyflawni pedwar diben y cwricwlwm yn llawn, yn enwedig bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac yn unigolion iach a hyderus os na fydd Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn cael ei haddysgu mewn modd eang, cytbwys a phlwrailiaethol.

1.4 Integreiddio

Mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar fwy o lawer o integreiddio rhwng pynciau a chreu cyfle i atgyfnerthu drwy ddull gweithredu gwahanol. Y nod yw y dylid integreiddio'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn y cwricwlwm. Drwy beidio â chynnwys hawl y rhiant i dynnu yn ôl, bydd yn haws cyflawni'r nod hwn.

Bydd peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl o'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg ynghyd â'r nod o gyflwyno dull eang, cytbwys a phlwrailiaethol o addysgu'r pwnc, bydd y ddau newid hyn yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddangosir isod:

Cymru lewyrchus	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd darparu cwricwlwm Dyniaethau eang, cytbwys a phlwrailiaethol yn rhoi cyfle gwell i bob person ifanc sy'n gadael yr ysgol ddeall yn llawn bwysigrwydd parchu pob ffydd, crefydd a grŵp ac yn galluogi gweithlu'r dyfodol i fod yn oddefgar ac yn integredig, gan alluogi pobl ifanc i fod yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
Cymru gydnherth	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg ym maes y Dyniaethau yn cyfrannu at gydnherthedd cymdeithasol, ac yn helpu dysgwyr i adnabod yr urddas a'r parch sy'n ddyledus i eraill yn y byd byw o'u cwmpas.
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd sicrhau bod pob dysgwr yn cael elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg o safon uchel yn fuddiol i'w les meddyliol, corfforol ac emosiynol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cynigion deddfwriaethol yn sicrhau y bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth am wahanol gredoau ac agweddau, ac yn dysgu i barchu eraill a'u trin ag urddas.
Cymru o gymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw galluogi dysgwyr i ddatblygu'n unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas ac mae'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn cyfrannu at y diben hwn drwy alluogi pob dysgwr i feithrin dealltwriaeth o amrywiaeth eang o ddiwylliannau a safbwyntiau athronyddol. Yn cynnwys bydolygon crefyddol ac anghrefyddol.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy feithrin parch a dealltwriaeth, bydd sicrhau y gellir manteisio ar gwricwlwm Crefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n eang, yn gytbwys ac yn blwrailiaethol yn cael effaith ddiwylliannol gadarnhaol ar bob dysgwr.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd; bydd sicrhau y gellir manteisio ar yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn cyfrannu at y diben hwn.

1.5 Cydweithio

Bydd y cynigion deddfwriaethol arfaethedig a'r polisi i sicrhau y gellir manteisio ar yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn cael effaith ar rieni, dysgwyr, ymarferwyr (mewn gwahanol ysgolion a lleoliadau), cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol ac Estyn. Yn ehangach, bydd hefyd yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau diwylliannol, addysg bellach ac addysg uwch, a busnesau.

Mae cyd-gynhyrchu wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y cwricwlwm, gydag Ysgolion Arloesi'n arwain y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, sy'n cynnwys Crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Trafod goblygiadau posibl y cynnig hwn ag amrywiaeth o bobl sydd â diddordeb.

- Cynnal ymgynghoriad Papur Gwyn ynghylch hawl rhieni i dynnu yn ôl o addysg grefyddol a'r newid enw ar gyfer addysg grefyddol.

Mae'n amlwg bod materion sensitif yn codi mewn perthynas â Chrefydd, gwerthoedd a moeseg ac, o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm, dyma'r meysydd lle mae'r tensiwn rhwng rôl y wladwriaeth a rôl rhieni i addysgu a hysbysu plant a phobl ifanc ar ei fwyaf sensitif ac, o bosibl, ei fwyaf enbyd.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu canllawiau ar y fframwaith statudol drafft i gefnogi'r broses o addysgu Crefydd, gwerthoedd a moeseg. Bydd y fframwaith hwn yn rhoi rhagor o fanylion ar y modd y gellir addysgu Crefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau. Cafodd ei ddrafftio gan ymarferwyr ac arbenigwyr ym maes addysg grefyddol. Mae ethos ac athroniaeth y fframwaith yn cyfateb i'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r fframwaith drafft yn amlinellu cyfraniad Crefydd, gwerthoedd a moeseg i'r Cwricwlwm i Gymru ac yn pwysleisio rhan annatod addysg grefyddol ym Maes y Dyniaethau a'r ffordd y mae'n cyfrannu at weddill y cwricwlwm, ac yn elwa arno.

Mae'r fframwaith drafft yn nodi pwysigrwydd cynllunio a rhoi ar waith ddull gweithredu gwrthrychol, beirniadol a phluraliaethol a fydd yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth hanfodol, ynghyd â'r cyfle i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth hanfodol, yn ogystal â chyfleoedd i gael profiadau cyfoethog, a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu fframwaith cysyniadol sy'n eu helpu i ddeall crefydd a'r bydolygon y byddant yn eu hastudio fel rhan o'r elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar fframwaith ategol ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ddiweddarach eleni.

1.6 Cyfranogiad

Mae'r cwricwlwm cyfan wedi cael ei lunio drwy gyd-gynhyrchu. Cynhaliwyd proses ymgysylltu eang ar faes polisi Crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r gwaith ar ddrafftio'r fframwaith ategol newydd ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg. Fodd bynnag, ystyrir bod y cynnig polisi hwn ar y newidiadau deddfwriaethol yn angenrheidiol a bydd yn arbennig o heriol am ei fod yn ennyn barn gref.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai Grŵp Cynnwys Cymunedau BAME/Cymunedau Ffydd yn cael ei sefydlu – bydd y grŵp hwn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu adnoddau a chanllawiau ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb a Chrefydd, gwerthoedd a moeseg.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm wedi cael ei wneud drwy fodel o gyd-gynhyrchu â chynrychiolwyr o'r system addysg yng Nghymru (Estyn, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru ac ymarferwyr). Wrth wraidd y broses hon mae rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Arloesi sydd wedi ymgysylltu â'u dysgwyr a'u hysgolion clwstwr ac ysgolion rhwydwaith er mwyn casglu safbwyntiau drwy gydol y broses. Hefyd, mae rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrthi'n mynd rhagddi.

Mae'r hyn y bydd yr elfen Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ei gynnwys o fewn y cwricwlwm newydd hefyd wedi cael ei gyd-gynhyrchu. Ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg, mae fframwaith ategol newydd wedi cael ei ddatblygu a'i lunio gan ymarferwyr, arbenigwyr crefyddol, Arloeswyr, academyddion, a chynrychiolwyr o Gyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n ffurfiol ynghylch y cynigion ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn y cwricwlwm newydd fel rhan o'r ymgynghoriad Papur Gwyn.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yr effaith gadarnhaol fwyaf sylweddol fyddai cyflwyno cwricwlwm gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol ar gyfer addysgu Crefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau. Mae Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ymgorffori amrywiaeth o ddulliau disgyblu y gellir eu defnyddio gan ddysgwyr i ymgysylltu mewn ffordd feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol.

Gallai'r effaith fwyaf negyddol fod ar ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr sydd â nodweddion crefyddol oherwydd y caiff yr addysg grefyddol a gyflwynir yn y lleoliadau hyn ei phennu gan lywodraethwyr yn unol â'u gweithred ymddiriedolaeth a bydd yn adlewyrchu sylfaen grefyddol yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn dilyn maes llafur enwadol ar hyn o bryd.

Yr ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol penodol yn ymwneud â Chrefydd, gwerthoedd a moeseg yw'r trydydd ymgynghoriad ffurfiol ar faterion yn ymwneud â Chrefydd, gwerthoedd a moeseg. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cynnal

ymgyngoriad ffurfiol ar agweddau ar Grefydd, gwerthoedd a moeseg, ddwywaith, fel rhan o'r broses datblygu deddfwriaethol ddiweddar. Gofynnodd yr Ymgynghoriad Papur Gwyn ar y Cwricwlwm ac Asesu nifer o gwestiynau ar y bwriad ar gyfer y pwnc. A rhoddodd yr ymgynghoriad diweddar "Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn" ail gyfle ffurfiol yn benodol i randdeiliaid a phartneriaid nodi goblygiadau dileu'r hawl i dynnu yn ôl, a rhoi sylwadau ar yr angen i newid enw'r pwnc.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r canllawiau statudol drafft (y Fframwaith Ategol ar gyfer Crefydd, gwerthoedd a moeseg), fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a datblygu MDPH y Dyniaethau, ac rydym yn parhau i ymgysylltu â'r partneriaid hyn. Cafwyd sawl cyfle i randdeiliaid a phartneriaid gyfrannu at y maes hwn a datblygu cynigion, bwriadau a chanllawiau, ac mae hyn yn parhau.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r pedwar diben, sef y man cychwyn ar gyfer yr holl ddysgu ac addysgu a ategir gan ddeddfwriaeth, yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu plant a phobl ifanc: yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; yn gyfranwyr mentrus a chreadigol; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac yn unigolion iach a hyderus. Mae gan Addysg Grefyddol orfodol ran bwysig i'w chwarae o ran galluogi dysgwyr i gyflawni'r dibenion hyn, a sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Rydym yn cyhoeddi'r asesiad effaith hwn fel rhan o ymgynghoriad sy'n gofyn am safbwyntiau ar oblygiadau'r cynnig. Byddwn yn edrych dros yr holl adborth yn ofalus cyn gwneud penderfyniad terfynol.

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, rhif cyfeirnod 07/07/2020

- 1. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?***

Yr unig gysylltiad rhwng y polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yw y bydd yr un mor berthnasol i lleoliadau cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog yn y system addysg a gynhelir â lleoliadau cyfrwng Saesneg.

- 2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:**

Nid oes unrhyw effaith ar y Gymraeg wedi'i nodi. Ceir mater ar wahân sy'n ymwneud â sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gael mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, eir i'r afael â hyn drwy'r gwaith datblygu ehangach ar y cwricwlwm newydd ac ni fydd y polisi na'r penderfyniad terfynol ynghylch yr hawl i dynnu yn ôl yn effeithio'n uniongyrchol arno.